Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 8 Mai 2013**

Amser:
**09:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**
Clerc y Pwyllgor
02920898409
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

## Agenda

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:30-09:35)**

**2 Papurau i'w nodi** (Tudalennau 1 - 16)
FIN(4)-08-13 Papur 1 - Llythyr gan Gartrefi Cymunedol..
FIN(4)-08-13 Papur 2 - Ymateb gan Llywodraeth Cymru - Buddsoddi i arbed
Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod**
Ar gyfer eitemau 4 - 7

**4 Ardaloedd Menter - Ystyried y cylch gorchwyl drafft (9:35-10:00)** (Tudalennau 17 - 18)

**5 Gwariant Ataliol - Papur Opsiynau (10:00-10:30)** (Tudalennau 19 - 42)

**6 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (10:30-10:45)** (Tudalennau 43 - 47)

**7 Rheoli Asedau - (Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus) Arddangos ei system E-Pims (10:45-11:30)**

Eitem 2

Cartrefi Cymunedol Cymru Community Housing

Jocelyn Davies AM
Welsh Government
Cardiff Bay
Cardiff

26 April 2013

Dear Jocelyn

We're very sorry that we were unable to provide oral evidence to the Finance Committee on this issue but we hope that this written evidence will inform your inquiry.

**Housing Association Assets**

As we stated in our previous paper Wales suffers not just from a lack of affordable housing but associated problems including poor long term health, low educational attainment, unemployment and high levels of economic inactivity. RSLs seek to alleviate many of these problems by providing housing, regeneration and care solutions in Wales. They underpin successful regeneration outcomes and add value to individuals, communities and the economy in general.

The sector now owns and manages 155,152 units with 50% represented by LSVT organisations.

The ability of the sector to generate surpluses is critical to match lender needs, and with a heightened re-pricing of traditional bank debt RSLs must continue displaying robust financial performance to access suitable long-term finance. Surpluses generated are used to underpin investment in maintaining existing housing stock and help finance development of new homes.

**Asset management in the housing sector**

With this in mind, in answering your first question, managing assets does form a key function in our members' business planning on both a strategic, long-term level as well as a day to day basis.

All our members are working towards or have achieved the Welsh Housing Quality Standard and are maintaining that standard, all of which requires detailed business plans. The levels of expenditure varies according to the quality of the stock but individual members link the programme of work to the Annual Budgets and also submit 5 year and 30 year business plans to Welsh Government.

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG
2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG
**T:** 029 20647800 **E:** enquiries@chcymru.org.uk **W:** www.chcymru.org.uk

Registered under the Companies Act 1985 Registration No. 2380564 Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 Rhif Cofrestru 2380564
Charity Registration 1128527 Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

Our members also have a budget for ‘General Repair and Maintenance’ which again is linked into their business plans and annual budgets as well as having a component accounting and replacement plan.

**Q2** Our members carry out the following activities to monitor the condition of assets and performance in asset management:

All members undertake a stock condition survey which captures complex data of the stock. RSLs are also involved in ’procurement frameworks’ and ‘open book accounting’. Many of our members are also involved with Housemark which is a benchmarking club and CHC and WG publish Global Accounts annually for the sector which provides sector information useful which is useful for benchmarking and decision-making.

**Q3** Housing Association investment has a much wider positive impact on society than just housing and contributes to other Welsh Government policies such as regeneration, energy, health and social services.

There is potential therefore to contribute towards the achievement of other Welsh Government Programmes other than just housing quality or supply through adopting a more creative approach.

This is consistent with recent Welsh Government strategy to support and deliver outcomes increasingly across rather than within Departmental portfolios.

In this context it is disappointing that the transfer of assets, in particular land, has not been transferred from other Departmental portfolios into housing projects despite it being a clear WG objective through its protocol. Land can be considered in many different ways which make it a flexible asset and a potentially huge catalyst to unlocking innovative funding mechanisms and increasing housing supply. We are disappointed that Public sector organisations are not willing to think more creatively about how their assets can be used other than to sell them off to the highest bidder.
We would encourage public sector organisations to assess the social value of their assets not just their financial value.

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG
2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG
**T:** 029 20647800 **E:** enquiries@chcymru.org.uk **W:** www.chcymru.org.uk

Registered under the Companies Act 1985 Registration No. 2380564 Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 Rhif Cofrestru 2380564
Charity Registration 1128527 Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

Cartrefi Cymunedol Cymru
Community Housing Cymru

**All Wales Public Sector Property Database – e-PIMS**

**Q4 & Q5**

Our understanding of the reason two members have recorded less than a hundred properties on the e-PiMS database is because they took part in an EPS exercise, a Gas information exercise. All our members' assets are recorded on the Land Registry Database and we would imagine that the e-PIMS database has a link to that database, in which case, CHC sees no reason to encourage its members to duplicate work unnecessarily.

**Land Transfer and Affordable Housing Protocols**

**Q6** Please refer to our answer to Q3.

**Q7** To transfer land from one department of Welsh Government to another requires cross-departmental collaboration. Our experience at CHC has been that departments work in silos and it is very difficult to have cross-departmental discussions let alone transfer of assets, hence the reason why so few transfers have taken place despite a Protocol being in place. CHC understands the budgeting mechanisms and organisational structure and culture Welsh Government operates within which upholds the internal departmental focus but we also recognise that Welsh Government is establishing a strategy that works across departments. CHC is more than happy to work with WG to demonstrate how cross-departmental collaboration can bring cross-departmental benefits. Eg Housing and Health (see below)

**Q8** There needs to be a clear Strategy that joins up the Outcomes of all portfolios in Welsh Government and this should be backed up with a public list of all of Welsh Government's assets.

CHC published a report eighteen months ago that considered the different areas and opportunities that Housing could make an useful contribution to Health's agenda. Eighteen months on we are seeing a lot of progress in the Aneurin Bevan Trust where a programme of work and innovative mechanisms of service delivery are being designed collaboratively, but we want to see similar progress across Wales. CHC is focusing its efforts on building up the capacity and specialism within the RSL sector to understand and deliver services required on a wider Social Care, Health and Housing agenda. Land transfer for homes must form part of a balanced equation in achieving shared outcomes.

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG
2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG
**T:** 029 20647800 **E:** enquiries@chcymru.org.uk **W:** www.chcymru.org.uk

Registered under the Companies Act 1985 Registration No. 2380564 Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 Rhif Cofrestru 2380564
Charity Registration 1128527 Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

Cartrefi Cymunedol Cymru
Community Housing

**Guidance and good practice**

**Q9** The RSL sector has a long and strong track record of successfully managing its assets and CHC would be happy to work with Welsh Government to give advice and share good practice with the wider public sector where that would be deemed useful. However we don't believe it is lack of skills and knowledge in the field of asset management that is holding back progress on asset transfer. We believe that there needs to be a more strategic vision and shared outcomes across departments that filters all the way through the decision making and design of service delivery which will allow for wider collaboration, where transfer of assets would become a natural activity within that strategy.

Thank you for the opportunity to expand on our initial paper. We hope the oral evidence sessions went well and we are more than happy to answer any further questions you may have on any aspect of this paper.

Kindest regards

Nick Bennett
Group Chief Executive

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG

2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG

**T:** 029 20647800 **E:** enquiries@chcymru.org.uk **W:** www.chcymru.org.uk



Registered under the Companies Act 1985 Registration No. 2380564 Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 Rhif Cofrestru 2380564

Charity Registration 1128527 Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

Cartrefi Cymunedol Community Housing Cymru

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG
2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG
**T:** 029 20647800 **E:** enquiries@chcymru.org.uk **W:** www.chcymru.org.uk

Registered under the Companies Act 1985 Registration No. 2380564 Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 Rhif Cofrestru 2380564
Charity Registration 1128527 Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf / Our ref
Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Mai 2013

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Buddsoddi i Arbed (Mawrth 2013)**

Croesawaf yr adroddiad hwn ar eich ymchwiliad i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, adroddiad sy'n ddefnyddiol ac yn berthnasol, yn fy marn i, ac un a fydd yn ein helpu wrth feddwl am wella'r ffordd y mae'r Gronfa yn gweithredu ymhellach. Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o waith caled y Pwyllgor Cyllid wrth iddo gasglu tystiolaeth a chyflwyno ei ganfyddiadau.

Mae argymhellion yr adroddiad sy'n ymwneud â Buddsoddi i Arbed yn gyson â'r gwaith a wneir ar y Gronfa ac rwy'n falch o allu eu derbyn, O ran yr argymhelliad olaf ynglŷn â'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, mae angen ei ystyried ymhellach gan ei fod yn dod o dan bortffolio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

Mae hwn yn gyfnod ariannol anodd a heriol. Mae gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru ynghyd â'r angen am sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae'r angen i ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cost-effeithiol ond sydd, ar yr un pryd, yn cynnal neu'n gwella ansawdd yn fwy nag erioed. Rydym wedi ceisio paratoi ar gyfer hyn drwy ddatblygu agenda effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru - gan gynnwys cyflwyno'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud buddsoddiadau o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed ers dechrau 2010. Ar ôl saith cylch ariannu mae buddsoddiadau gwerth dros £75 miliwn wedi cael eu gwneud i helpu cyfanswm o 65 o brosiectau.

Mae dysgu o'r dulliau gweithredu newydd a rhaeadru'r wybodaeth newydd hon yn hanfodol ac mae cefnogaeth y Pwyllgor i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o gasglu a rhannu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@Cymru.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

gwersi a ddysgwyd drwy adroddiadau cyhoeddedig ac astudiaethau achos o brosiectau a gefnogwyd a'r cyswllt â Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i'w chroesawu'n fawr.

Byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ac rydym erbyn hyn wedi comisiynu gwaith i ddechrau ar werthusiad allanol. Bydd adroddiad y Pwyllgor a'r dystiolaeth a gyflwynir wrth ei baratoi, yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'n helpu yn y broses honno. Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am ei waith yn ystod yr ymchwiliad i'r Gronfa.

Ceir fy ymateb i argymhellion yr Adroddiad mewn atodiad i'r llythyr hwn.

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid
Gweinidog Cyllid

**ATODIAD A**

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r enw Buddsoddi i Arbed**

**Argymhelliad 1. Nid oeddem yn gwbl argyhoeddedig ynghylch buddion cylchau cynnig â thema ac, o gofio nad yw'r gronfa buddsoddi i arbed yn un ddiwaelod, rydym yn argymell bod cylchau cynnig yn parhau i gefnogi'r cynigion gorau, waeth beth fo'u cynnwys.**

**Ymateb: Derbyn**

Nid wyf wedi mynd ati i'n benodol i gyfyngu ar gynigion yn ôl thema gul. Yn lle hynny, rwyf wedi dewis annog y cynigion ehangaf posibl sy'n arwain at welliant a mwy o effeithlonrwydd yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rwyf wedi sicrhau bod y Gronfa yn cefnogi ffrydiau gwaith Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae ar gael ar gyfer mentrau y mae partneriaethau yn y sector cyhoeddus wedi nodi eu bod yn feysydd â blaenoriaeth. Er enghraifft, sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac amrywiol brosiectau fel rhan o'r rhaglen waith a arweinir gan Weithgor Asedau Cenedlaethol Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Byddaf hefyd yn parhau i annog cynigion newydd sy'n efelychu mentrau sydd wedi dangos drwy fuddsoddiadau blaenorol y gallant arwain at fuddiannau sylweddol.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylid pennu'r trothwy ar £100,000 unwaith eto er mwyn sicrhau nad yw prosiectau sydd â'r gallu i wneud arbedion sylweddol yn cael eu colli.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyflwynwyd y trothwy er mwyn helpu i dargedu prosiectau strategol sy'n cynnig enillion da am y buddsoddiad, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n ychwanegol. Mae targedu o'r fath hefyd yn helpu i sicrhau bod gorbenion gweinyddol y Gronfa mor isel â phosibl.

Er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y terfyn trothwy de minimus, mae lle o hyd i gefnogi prosiectau gwerth llai na £200,000 a rhoddir blaenoriaeth i'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan ffrydiau gwaith Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus. Eto i gyd, rydym yn cydnabod y gellid gwella canllawiau'r Gronfa er mwyn esbonio sut y cymhwysir y trothwy ac felly byddwn yn ymdrin â hyn mewn canllawiau diwygiedig ar gyfer y cylch ariannu nesaf.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu'r terfyn trothwy er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw brosiect buddiol ei atal rhag ymgeisio a byddaf yn annog y cyrff llai yn

y sector cyhoeddus i gyflwyno cynigion gwerth is uwchlaw £100,000 lle ceir tystiolaeth y bydd buddiannau sylweddol yn deillio o brosiectau o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol** – caiff prosiectau a ddewisir i gael cymorth o dan y Gronfa Buddsoddi i Arbed eu hariannu o fewn cyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Caiff unrhyw gynnydd mewn gorbenion gweinyddol ei reoli o fewn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer costau rhedeg.

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod paneli asesu yn cynnwys o leiaf un person sydd â lefel uchel o arbenigedd, yn enwedig yn achos prosiectau a allai fod yn dechnegol eu natur.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan aelodaeth graidd y Panel lefel uchel o arbenigedd ar hyn o bryd gan gynnwys Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Buddsoddi Strategol Llywodraeth Cymru; Y Prif Economegydd; Pennaeth Rheoli Ariannol y GIG; Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus; a Phennaeth yr Uned Buddsoddi i Arbed. Yn ogystal â'r arbenigedd hwn, ceisir cyngor penodol ar bolisi hefyd wrth arfarnu cynigion er mwyn helpu i ddeall y cyd-destun polisi a sicrhau bod cynnig yn addas yn strategol. Bydd y Panel hefyd yn ystyried gwahodd swyddogion eraill i ddod i'w gyfarfodydd lle y byddai hyn yn ei helpu i ddeall prosiectau ac arfarnu cynigion.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylid cynnal ymweliad â phob prosiect sy'n derbyn nawdd buddsoddi i arbed rhwng 6 a 12 mis ar ôl y taliad cyntaf, neu pan fydd ad-daliadau yn dechrau. Dylai'r ymweliad hwn gynnwys gwerthusiad mwy trylwyr – gwerthuso nid yn unig a yw'r prosiect wedi cyrraedd ei dargedau ariannol yn unig, ond ei effaith gyffredinol ar y gwasanaeth a ddarperir. Byddai ymweliad swyddogol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth y gellid ei defnyddio i hyrwyddo prosiect fel enghraifft i eraill.**

**Ymateb: Derbyn**

Er mwyn helpu i gasglu a rhaeadru'r gwersi a ddysgwyd anogir prosiectau Buddsoddi i Arbed i baratoi astudiaethau achos byr, a gyhoeddir wedyn yn yr Adroddiadau Buddsoddi i Arbed. Ers Cylch VI, mae swyddogion yn ymweld â phrosiect newydd o fewn tri mis i dderbyn arian fel y gallant drafod a chytuno ar drefniadau gwerthuso'r prosiect. Nod trefniadau o'r fath yw asesu effaith prosiect ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cynnydd tuag at sicrhau buddiannau ehangach.

O ran gwaith monitro prosiectau, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau chwarterol gael eu cyflwyno ac i adolygiadau ôl-brosiect gael eu cynnal. Mae ymweliadau ffurfiol yn rhan o'r trefniadau monitro/adolygu

a bwriedir parhau i'w cynnal; wedi'u targedu at brosiectau penodol os oes angen.
**Goblygiadau Ariannol –** Dim.

**Argymhelliad 5. Roedd y prosiectau buddsoddi i arbed gorau y bu i ni edrych arnynt yn dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wnaed a'r arbedion a gynhyrchwyd. Er nad oes dwywaith ei bod yn bwysig dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'n glir i ni mai prosiect buddsoddi i arbed oedd hwn. Rydym yn argymell mai dim ond mewn achosion lle mae tystiolaeth gadarn bod arbedion yn cael eu cynhyrchu o fuddsoddiadau y dylid defnyddio cronfeydd buddsoddi i arbed, ac nid ar gyfer achosion lle mae angen arian ychwanegol, sy'n debygol o gynhyrchu arbedion dros amser.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn parhau i gefnogi amrywiaeth o gynigion prosiect a mentrau gwahanol sy'n arwain at wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i bob prosiect ddangos y bydd yn arwain at arbedion ariannol yn y pen draw ac, yn anochel, bydd gwahaniaethau rhwng prosiectau o ran amseriad a'r ffordd yr ystyrir buddsoddiad ac arbedion canlyniadol, fodd bynnag, mae angen o hyd i bob prosiect greu arbedion er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth Buddsoddi i Arbed.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim.

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i fonitro'r galw am y cynllun. Ar y cyfan, credwn fod hwn yn gynllun gwych sy'n gwella gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n cynhyrchu arbedion gwirioneddol i bwrs y wlad. Ni fyddem am glywed bod cynlluniau a fyddai'n arbed arian yn cael eu dal yn ôl oherwydd diffyg buddsoddiad ysgogi drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r galw am y cynllun yn fanwl ochr yn ochr â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r dull gweithredu hyd yma wedi arwain at yr hyblygrwydd cyllidebol mwyaf posibl ac mae'r Gronfa wedi cael £20.5 miliwn o arian ychwanegol rhwng 2012-13 a 2014-15 er mwyn helpu buddsoddiadau newydd pellach mewn prosiectau buddiol.

**Goblygiadau Ariannol –** dim effaith uniongyrchol, ond byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo astudiaethau achos, yn annog sefydliadau i efelychu**

**cynlluniau llwyddiannus, ac i hyrwyddo Buddsoddi i Arbed drwy Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae cefnogaeth y Pwyllgor i ddull gweithredu presennol Llywodraeth Cymru i'w chroesawu'n fawr a byddwn yn parhau i gyhoeddi a hyrwyddo astudiaethau achos ac ymgysylltu â Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn helpu i annog mwy o sefydliadau i fabwysiadu'r arfer da profedig a geir yng nghynigion prosiectau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim.

**Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i annog sefydliadau addysg a sectorau eraill, sydd y tu allan i'r sectorau llywodraeth leol/GIG craidd, i ddefnyddio'r gronfa.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gwaith ar godi ymwybyddiaeth o'r gronfa yn parhau, a rhoddir gwybod i bob corff yn y sector cyhoeddus am y cyfleoedd a gynigir gan y Gronfa. Mae adroddiadau Buddsoddi i Arbed ar astudiaethau achos wedi cael eu dosbarthu drwy'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru ac rwyf wedi hyrwyddo mentrau gan y Gronfa drwy fynychu agoriadau swyddogol a gwneuthum Ddatganiad Llafar yn y Cynulliad y llynedd. Mae fy swyddogion yn codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa a phrosiectau arfer da drwy ddefnyddio amrywiol rwydweithiau ac maent wedi arwain rhaglen o weithdai - gan gynnwys rhai gyda Chyfarwyddwyr Cyllid o'r sector addysg bellach.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim.

**Argymhelliad 9. Er mai cynllun arbedion sy'n annog cydweithio yw buddsoddi i arbed, rydym yn argymell y dylai'r gronfa gydweithio ranbarthol – er ei bod yn gronfa sy'n canolbwyntio ar gydweithio – gynhyrchu arbedion i ddangos ei bod yn cynnig gwerth am arian.**

Mae'r argymhelliad yn gofyn am ystyriaeth bellach gan ei fod yn dod o dan bortffolio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

**Jane Hutt AC**
**Gweinidog Cyllid**

# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_24_04_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jocelyn Davies (Cadeirydd)<br>Peter Black<br>Christine Chapman<br>Paul Davies<br>Mike Hedges<br>Julie Morgan<br>Ieuan Wyn Jones<br>Vaughan Gething |
| Tystion: | David Bentley, Head of Asset Management, CIPFA |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Eleanor Roy (Ymchwilydd)<br>Kerry Dearden (Ymchwilydd) |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones, ac roedd Vaughan Gething yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Rheoli Asedau - Tystiolaeth gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Bentley, Pennaeth Rheoli Asedau, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) - Eiddo.

2.2 Holodd yr Aelodau y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at David Bentley gyda'r cwestiynau canlynol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar Reoli Asedau yng Nghymru:

- Mae strategaeth gyfalaf Llywodraeth Cymru, y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP), yn cyfeirio at reoli asedau ond dim ond o ran nodi'r angen i ddefnyddio'r sylfaen asedau yn well. Yn eich barn chi sut y dylai rheoli asedau yn y llywodraeth ganolog, ac yn y sector cyhoeddus ehangach, gael ei gysylltu â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ymarferol?
- Yn eich papur, gan gyfeirio at gynlluniau rheoli asedau llywodraeth leol Cymru, yr ydych yn nodi bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cyfeirio i ryw raddau at amcanion strategol neu bolisi, ond rhaid bod y cyfeiriadau hyn yn rhai gwirioneddol yn ymarferol. Yn eich profiad chi, a yw'n wir nad yw cysylltiadau o'r fath yn rhai gwirioneddol yn ymarferol, ac os yw rheoli asedau'n cael ei weld fel gwasanaeth cefnogi mewn rhai meysydd, fel y mae peth o'n tystiolaeth yn ei awgrymu, sut y gellir sicrhau bod cysylltiadau strategol o'r fath yn fwy diriaethol?
- Yn eich papur mewn perthynas â gwersi a ddysgwyd o Gymru [*tudalennau 13-14*] yr ydych yn rhoi deg enghraifft o lle yr ydych wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol mewn perthynas â rheoli eiddo. A oedd y cyfan o'r rhain yn awdurdodau lleol o Gymru a sut y mae'r trefniadau hyn yn codi, er enghraifft a yw'r awdurdod yn cysylltu â chi am gymorth gyda phrosiect?

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar oblygiadau ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ymateb i'r Dirprwy Weinidog yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol

## 5. Rheoli Asedau - Ystyried y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar ei ymchwiliad i Reoli Asedau.

## 6. Canllawiau i bwyllgorau eraill ar graffu ariannol

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ganllawiau drafft i bwyllgorau eraill ar graffu ariannol.

## 7. Cyllido Addysg Uwch – Ystyried cylch gorchwyl drafft

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl drafft ei ymchwiliad sydd ar ddod ynghylch Cyllido Addysg Uwch a thrafododd ddulliau o ymdrin â'r ymchwiliad.

## 8. Trafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015

8.1 Trafododd y Pwyllgor gynigion ar gyfer ymdrin â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon